

TYSTYSGRIF HER SGILIAU A BAGLORIAETH CYMRU

Llawlyfr Gweinyddu 2019-2020

1.	RHAGARWEINIAD	1
1.1	GWYBODAETH AM Y DDOGFEN HON.....	1
1.2	MANYLION CYSWLLT.....	2
2.	YMRESTRU	3
2.1	GOFYNION YMRESTRU	3
2.2	CODAU YMRESTRU	4
2.3	DATA SYLFAENOL YMRESTRU	4
2.4	DYDDIADAU A FFOEDD YMRESTRU.....	4
2.5	YMRESTRU PAN FYDD YMGEISYDD YN SYMUD I GANOLFAN ARALL YN YSTOD CWRS	5
3.	COFRESTRIDAU A FFOEDD.....	6
3.1	DATA SYLFAENOL COFRESTRU	6
3.2	CENEDLAETHOL/SYLFAEN CA4 AC UWCH	7
3.3	SYLFAEN (ÔL-16) A CENEDLAETHOL (ÔL-16)	8
3.4	DYDDIADAU A FFOEDD COFRESTRU.....	9
3.5	AILSEFYLL A'R RADD UCHAF BOSIBL	9
3.6	AILSEFYLL A CHYFNEWID	9
4.	GWYBODAETH AM AGREGU.....	10
4.1	FFURFLEN AOI1	10
4.2	FFURFLEN AOI2	10
5.	E-GYFLWYNO	12
6.	CYMEDROLI	13
6.1	CADW GWAITH A ASESIR YN FEWNOL YN DDIOGEL.....	13
6.2	CYFLWYNO MARCIAU ASESIAID MEWNOL	13
6.3	SAMPL I'W CYMEDROLI	14
6.4	DOGFENNAU GOFYNNOL	15
6.5	CYMEDROLI MEWNOL	16
6.6	CYMEDROLI ALLANOL	16
6.7	ADBORTH	16
6.8	CANLLAWIAU CYFLWYNO GYDAG AMGRYPTIO	17
6.9	DYDDIADAU CYMEDROLI	19
	IONAWR 2020	19
	MEHEFIN 2020	19
7.	CANLYNIADAU.....	20
7.1	CANLYNIADAU	20
7.2	YMHOLIADAU AGREGU	20
7.3	ADOLYGU'R CYMEDROLI AR ÔL Y CANLYNIADAU	21
7.4	TYSTYSGRIFAU	21
8.	CYMWYSTERAU ATEGOL	22
8.1	GOFYNION CYMWYSTERAU ATEGOL.....	22
8.2	CYMWYSTERAU ATEGOL LLYTHRENNEDD A RHIFEDD SY'N CAEL EU DERBYN	23

8.3	CYMWYSTERAU MATHEMATEG A SAESNEG A GYFLAWNIR Y TU ALLAN I'R DU	24
9.	GRADDIO AC ADRODD YN ÔL	25
9.1	TYSTYSGRIF HER SGILIAU GENEDLAETHOL/SYLFAEN (CA4)	25
9.2	TYSTYSGRIF HER SGILIAU GENEDLAETHOL (ÔL-16)	26
9.3	TYSTYSGRIF HER SGILIAU GENEDLAETHOL (ÔL-16)	27
9.4	TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH	28
9.5	TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH A THARIFF UCAS	28
10.	TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG	29
10.1	DIFFINIADAU	29
10.2	GWEITHREDU TREFNIADAU MYNEDIAD YN YR HERIAU AC YN Y PROJECT UNIGOL	29
10.3	GWEITHREDU YSTYRIAETH ARBENNIG YN YR HERIAU A'R PROJECT UNIGOL	30
10.4	GWAITH AR GOLL SYDD WEDI'I ASESU GAN GANOLFANNAU	30
10.5	EITHRIADAU	30
10.6	SENARIOS POSIBL	31
10.7	GWYBODAETH BELLACH	31
11.	CAMYMDDWYN	32
12.	GEIRFA	33

Sylwer: gallai'r ddogfen hon newid. Byddai'n syniad da i chi ddarllen y fersiwn electronig sydd ar gael ar wefan CBAC er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Gwybodaeth am y ddogfen hon

Yn y Llawlyfr Gweinyddu hwn, ceir y wybodaeth sy'n hanfodol i ganolfannau CBAC yng Nghymru wrth iddynt weinyddu'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru ar gyfer 2019/20. Mae'n ymwneud â'r cymwysterau canlynol:

Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen CA4
Bagloriaeth Cymru Sylfaen (ôl-16)
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (ôl-16)
Bagloriaeth Cymru Uwch

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar y Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â chymwysterau ategol eraill.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Bydd canlyniadau cyfunol y pedair cydran yn penderfynu canlyniad y Dystysgrif Her Sgiliau, a rhaid i ddysgwyr gyflawni pob un o'r 4 cydran er mwyn ennill y Dystysgrif Her Sgiliau. Ochr yn ochr â'r cymwysterau ategol gofynnol (sy'n benodol i bob lefel o Bagloriaeth Cymru), bydd hyn yn pennu canlyniad cyffredinol Bagloriaeth Cymru.

Rhaid defnyddio'r Llawlyfr Gweinyddu gyda'r cyhoeddiadau canlynol:

- Manyleb(au) y cymhwyster ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau Bagloriaeth Cymru penodol a gyflwynir;
- Cyfarwyddiadau CBAC ar gynnal Asesiadau dan Reolaeth;
- [Llawlyfrau Cyflwyno](#);
- [Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC](#).

Mae manyleb y cymhwyster, Cod Ymarfer y Canolfannau a'r Llawlyfr Cyflwyno i'w cael ar dudalen y cymhwyster perthnasol yn www.cbac.co.uk

Mae'r ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau ar gael o dan [Cofrestrïadau](#) yn adran [Swyddogion Arholiadau](#) y wefan.

1.2 Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â materion gweithredol y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, cysylltwch ag aelod o dîm Gweithrediadau Bagloriaeth Cymru isod.

Am ymholiadau gweinyddol cyffredinol e-bostiwrch wbq@cbac.co.uk		
Sally Griffiths	Cefnogi Cwsmeriaid – Uwch Swyddog Bagloriaeth Cymru (Gweithrediadau)	 029 2026 5014  sally.griffiths@wjec.co.uk
Laura Hughes	Cefnogi Cwsmeriaid – Gweinyddwr Bagloriaeth Cymru	 029 2026 5001  laura.hughes@wjec.co.uk
Meggie Lewis	Cefnogi Cwsmeriaid - Cynorthwydd Gweinyddol Bagloriaeth Cymru	 029 2026 5186  meggie.lewis@wjec.co.uk
Ymholiadau agregu ar ôl rhyddhau'r canlyniadau		 wbq@cbac.co.uk

2. YMRESTRU

2.1 Gofynion ymrestru

Rhaid i'r holl ymgeiswyr sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru o fis Medi 2019 ymlaen ymrestru gyda CBAC erbyn 31 Hydref 2019.

Gofynnir i ganolfannau ymrestru manylion personol ymgeiswyr unigol:

- Rhif yr ymgeisydd;
- Enw'r ymgeisydd;
- Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI);
- Rhif Dysgwr Unigryw; (*Gweler isod ar gyfer Cenedlaethol/Sylfaen CA4*)
- Rhyw;
- Dyddiad geni;
- Y cymhwyster yr ymrestrir amdano.

Rhaid i ganolfannau ddefnyddio'r **Rhif Dysgwr Unigryw** yn yr holl ffeiliau cyfnewid data electronig (EDI) a gyflwynir, a allai gael eu defnyddio ar gyfer agregu Bagloriaeth Cymru.

Rhif Dysgwr Unigryw Cenedlaethol/Sylfaen CA4

Rhif 10 digid yw'r Rhif Dysgwr Unigryw sydd wedi'i lunio i alluogi creu cofnod cyrhaeddiad gydol oes. Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso dosbarthu Rhif Dysgwr Unigryw i bob disgybl 14 oed a hŷn ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Ni fydd gan ymgeiswyr sy'n ymrestru ar gyfer y cymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen CA4 am y tro cyntaf fynediad at eu Rhif Dysgwr Unigryw pan fyddant yn ymrestru.

Rhaid i ganolfannau atodi'r Rhif Dysgwr Unigryw wrth gofrestru Her ar y cyfle cyntaf pan fydd y rhif ar gael.

Rhaid cyflwyno ymrestriadau gan ddefnyddio un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfnewid Data Electronig (EDI);
- Gwefan Ddiogel CBAC.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses hon yn y ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau y gellir ei llwytho i lawr yn https://www.cbac.co.uk/exam-officers/entries/?language_id=2

2.2 Codau ymrestru

Mae'r tabl isod yn cynnwys y codau ymrestru y bydd eu hangen arnoch i ymrestru eich ymgeiswyr:

Rhif Achredu'r Cymhwyster	Cymhwyster	Cod cyfrwng Saesneg	Cod cyfrwng Cymraeg
601/4918/8	Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen CA4 CBAC	9009Q0	9009C0
601/4920/6	Bagloriaeth Cymru Sylfaen (ôl-16) (Lefel 1) CBAC	9001Q0	9001C0
601/4919/X	Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (ôl-16) (Lefel 2) CBAC	9002Q0	9002C0
601/4921/8	Bagloriaeth Cymru Uwch CBAC	9003Q0	9003C0

2.3 Data sylfaenol ymrestru

Gellir llwytho data sylfaenol i lawr o wefan CBAC yn: http://www.cbac.co.uk/exam-officers/basedata/?language_id=2

Y codau cyfres arholiadau a bwrdd CBAC y bydd eu hangen ar gyfer data sylfaenol yw:

Lefel Arholiad	Cyfres	Blwyddyn	Bwrdd
Ymrestru Bagloriaeth Cymru	9W	19b	41

2.4 Dyddiadau a ffioedd ymrestru

Gellir dod o hyd i ddyddiadau ymrestru a ffioedd yn nogfen ffioedd cofrestru CBAC sydd ar gael ar y dudalen Swyddogion Arholiadau ar [wefan CBAC](#). Ceir cyswllt i'r ddogfen yma:

https://www.wjec.co.uk/exam-officers/Ffioedd_Cymwysterau_Cyffredinol_a_Galwedigaethol_2019_20.pdf?language_id=2

Rhaid ymrestru ar ddechrau'r cwrs (e.e. ym mlwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd).

Ar gyfer ymgeiswyr a ymrestrwyd er fis Medi 2018/19 telir ffioedd cofrestru Her unigol yn y gyfres gofrestru.

Ar gyfer ymgeiswyr a ymrestrwyd cyn Medi 2018/19 mae'r ffi ymrestru yn cynnwys 1 cofrestriad ar amser i bob Her, a'r project; ac 1 cofrestriad am bob cyfnawid.

Bydd angen talu **ffi hwyr** a **ffi hwyr iawn** os nad yw canolfannau'n ymrestru ymgeiswyr erbyn y dyddiadau ymrestru sydd wedi'u cyhoeddi.

Ni dderbynnir unrhyw ymrestriadau ar ôl 31 Gorffennaf ar gyfer pob blwyddyn academaidd.

Ni ellir ad-dalu cost ymrestriadau.

2.5 Ymrestru pan fydd ymgeisydd yn symud i ganolfan arall yn ystod cwrs

Lle mae ymgeisydd eisoes wedi ymrestru drwy ganolfan arall, nid oes angen i'r ganolfan newydd ymrestru o'r newydd. Bydd y ganolfan newydd yn gallu cofrestru ar ran yr ymgeisydd.

Cysylltwch â wbq@cbac.co.uk gydag enw'r ymgeisydd, ei Ddangosydd Ymgeisydd Unigryw a'i ddyddiad geni i gadarnhau'r ymrestriad presennol, ac unrhyw gydrannau blaenorol y mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru ar eu cyfer.

3. COFRESTRIDAU A FFIOEDD

Rhaid cofrestru ar gyfer pob un o'r tair Her a'r Project Unigol ar wahân.

Rhaid cofrestru i gyfnewid Bagloriaeth Cymru a chyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau yr un pryd er mwyn i'r cofrestriad gael ei dderbyn – nid oes modd cofrestru ar gyfer cyfnewid y naill na'r llall fel cymhwyster ar ei ben ei hun, yn y lle cyntaf, (gweler adran 3.6 am fanylion pellach).

Gellir cyflwyno cofrestriadau trwy ddefnyddio un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfnewid Data Electronig (EDI);
- Gwefan Ddiogel CBAC.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â'r broses gofrestru yn nogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC, sydd ar gael yn <https://www.cbac.co.uk/swyddogion-arholiadau/cofrestriadau>

3.1 Data sylfaenol cofrestru

Gellir llwytho data sylfaenol i lawr o wefan CBAC: https://www.wjec.co.uk/exam-officers/basedata/?language_id=2

Y codau cyfres arholiadau a bwrdd CBAC y bydd eu hangen ar gyfer y data sylfaenol yw:

Lefel Arholiad	Cyfres	Blwyddyn	Bwrdd
Bagloriaeth Cymru – cyfres Ionawr	1W	20b	41
Bagloriaeth Cymru – cyfres Mehefin	6W	20b	41

3.2 Cenedlaethol/Sylfaen CA4 ac Uwch

Gellir cyflwyno cofrestriadau ar gyfer y tair Her naill ai ar gyfer cyfres Ionawr neu gyfres Mehefin yn ystod dwy flynedd y cwrs. **Rhaid** i gofrestriadau ar gyfer y Project Unigol gael eu cyflwyno yn ystod ail flwyddyn y cwrs naill ai yng nghyfres Ionawr neu yng nghyfres Mehefin.

Rhaid defnyddio codau cofrestru cyfnewid er mwyn agregu sgorau a dyfarnu gradd gyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru. Dim ond pan fydd y dysgwr eisoes wedi cwblhau neu wedi'i gofrestru ar gyfer y pedair cydran, ac yn cwblhau'r cymwysterau ategol y bydd hyn ar gael ar gyfer cyfres Mehefin.

Cenedlaethol/Sylfaen CA4

Rhif Cyfeirnod Uned/Rhif Achredu'r Cymhwyster	Teitl	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Darpariaeth y Gyfres	
				Ionawr 2020	Mehefin 2020
J/506/6990	Her Menter a Chyflogadwyedd	90S9U2	90S9N2	✓	✓
L/506/6991	Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	90S9U3	90S9N3	✓	✓
R/506/6992	Her y Gymuned	90S9U4	90S9N4	✓	✓
L/506/6988	Project Unigol	90S9U1	90S9N1	✓	✓
601/4918/8	Bagloriaeth Cymru (cyfnewid)	9009Q0	9009C0	X	✓
601/4915/2	Tystysgrif Her Sgiliau (cyfnewid)	90S9Q0	90S9C0	X	✓

Uwch

Rhif Cyfeirnod Uned/Rhif Achredu'r Cymhwyster	Teitl	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Darpariaeth y Gyfres	
				Ionawr 2020	Mehefin 2020
J/506/8139	Her Menter a Chyflogadwyedd	90S3U2	90S3N2	✓	✓
A/506/8140	Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	90S3U3	90S3N3	✓	✓
F/506/8141	Her y Gymuned	90S3U4	90S3N4	✓	✓
J/506/8142	Project Unigol	90S3U1	90S3N1	✓	✓
601/4921/8	Bagloriaeth Cymru (cyfnewid)	9003Q0	9003C0	X	✓
601/4917/6	Tystysgrif Her Sgiliau (cyfnewid)	90S3Q0	90S3C0	X	✓

3.3 Sylfaen (ôl-16) a Cenedlaethol (ôl-16)

Rhaid i gofrestrïadau ar gyfer y Project Unigol a'r 3 Her gael eu cyflwyno ar gyfer cyfres Mehefin erbyn diwedd y cwrs. Gellir astudio'r cymhwyster dros 2 flynedd.

Rhaid defnyddio codau cofrestru cyfnewid er mwyn agregu sgorau a dyfarnu gradd gyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru. Dim ond pan fydd y dysgwr eisoes wedi cwblhau, wedi'i gofrestru ar gyfer y pedair cydran, ac yn cwblhau'r cymwysterau ategol y bydd hyn ar gael ar gyfer cyfres Mehefin.

Sylfaen (ôl-16)

Rhif Cyfeirnod Uned/Rhif Achredu'r Cymhwyster	Teitl	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Darpariaeth y Gyfres	
				Ionawr 2020	Mehefin 2020
D/506/8129	Her Menter a Chyflogadwyedd	90S1U2	90S1N2	X	✓
H/506/8133	Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	90S1U3	90S1N3	X	✓
M/506/8135	Her y Gymuned	90S1U4	90S1N4	X	✓
Y/506/8131	Project Unigol	90S1U1	90S1N1	X	✓
601/4920/6	Bagloriaeth Cymru (cyfnewid)	9001Q0	9001C0	X	✓
601/4941/3	Tystysgrif Her Sgiliau (cyfnewid)	90S1Q0	90S1C0	X	✓

Cenedlaethol (ôl-16)

Rhif Cyfeirnod Uned/Rhif Achredu'r Cymhwyster	Teitl	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Darpariaeth y Gyfres	
				Ionawr 2020	Mehefin 2020
R/506/8130	Her Menter a Chyflogadwyedd	90S2U2	90S2N2	X	✓
K/506/8134	Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	90S2U3	90S2N3	X	✓
T/506/8136	Her y Gymuned	90S2U4	90S2N4	X	✓
D/506/8132	Project Unigol	90S2U1	90S2N1	X	✓
601/4919/X	Bagloriaeth Cymru (cyfnewid)	9002Q0	9002C0	X	✓
601/4916/4	Tystysgrif Her Sgiliau (cyfnewid)	90S2Q0	90S2C0	X	✓

3.4 Dyddiadau a ffioedd cofrestru

Cyhoeddir dyddiadau a ffioedd cofrestru ym mis Medi a gellir eu gweld ar wefan CBAC yn y ddogfen CBAC Ffioedd Cofrestru 2019-20 ar gael yma:

https://www.wjec.co.uk/exam-officers/Ffioedd_Cymwysterau_Cyffredinol_a_Galwedigaethol_2019_20.pdf?language_id=2

Caiff dyddiadau eu cynnwys hefyd ar Siart Wal Dyddiadau Allweddol Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru sydd ar gael yma:

<https://www.wjec.co.uk/exam-officers/related-documents.html?category=keyDatesAndTimetables>

3.5 Ailsefyll a'r radd uchaf bosibl

Bydd gan ddysgwyr un cyfle i ailsefyll pob cydran a asesir, hynny yw, y tair Her a'r Project Unigol. Mewn cyfresi blaenorol, petai dysgwr yn ailsefyll, byddai eu gradd yn cael ei chyfyngu i'r lefel isaf bosibl ar gyfer y gydran.

Yn dilyn adborth gan ganolfannau, cynigiodd CBAC y dylid dileu'r cap ar y marciau i ymgeiswyr sy'n ailsefyll cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Ar ôl ymgynghori â Cymwysterau Cymru, rydym yn falch o gadarnhau bod hyn wedi'i gytuno ac y bydd yn weithredol o Ionawr 2020.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll cydran sefyll asesiad gwahanol i'r gwaith a aseswyd yn wreiddiol. Mae hyn yn golygu:

- na allant wella ar waith sydd eisoes wedi'i gyflwyno i'w asesu'n flaenorol
- rhaid i deitl y gwaith fod yn wahanol i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol

Gallai methu â bodloni'r gofynion hyn olygu camymddwyn ac, fel y cyfryw, byddai tîm Cydymffurfiaeth CBAC yn delio â hyn.

Rheolau ailsefyll

Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran unwaith, gyda'r marciau uchaf yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster. Pe byddai ymgeiswyr eisiau cofrestru ar gyfer sefyll unrhyw gydran am y trydydd tro, nid oes hawl defnyddio unrhyw ganlyniadau o'r cydrannau a safwyd yn flaenorol wrth agregu'r radd newydd. Felly, rhaid ailsefyll pob cydran yn y cymhwyster.

3.6 Ailsefyll a chyfnewid

Pan gaiff yr ymgeisydd y cyfle cyntaf i gyfnewid rhaid cofrestru i gyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau a'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru trosfwaol ar yr un pryd. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei dyfarnu i ddysgwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymwysterau ategol i dderbyn dyfarniad cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Os felly, gellir eu cofrestru am yr eildro i gyfnewid Bagloriaeth Cymru yn unig yn y gyfres nesaf sydd ar gael. Bydd gwneud hyn yn sicrhau bod agregu yn digwydd ac yr ystyrir unrhyw gymwysterau ategol pellach a enillwyd.

4. GWYBODAETH AM AGREGU

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru drosfwaol, rhaid i'r ymgeiswyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â'r cymwysterau ategol a nodir.

I ddod o hyd i dystiolaeth o hyn mae CBAC yn gofyn am wybodaeth gan Sefydliadau Dyfarnu eraill ynghylch data cofrestru a chyraeddiadau blaenorol i'w cydweddu ag ymgeiswyr Bagloriaeth Cymru.

Pan dderbynnir y wybodaeth hon oddi wrth y Sefydliadau Dyfarnu eraill mae'n cael ei chydweddu ag ymgeiswyr a gofrestrwyd yn y gyfres gyfredol.

I ddod o hyd i'r wybodaeth gefnogol hon bydd CBAC yn cysylltu â chanolfannau mewn 2 gam:

- 1) Ymholiad cychwynnol yn nhymor y Gwanwyn i ganfod gwybodaeth Sefydliad Dyfarnu (Ffurflen AOI1)
- 2) Ymholiad pellach yn nhymor yr haf ynghylch unrhyw ddata na ellir eu cydweddu (Ffurflen AOI2)

4.1 Ffurflen AOI1

Bwriad y ffurflen hon yw hysbysu CBAC gan ba Sefydliadau Dyfarnu y mae angen i ni gasglu data. Yr unig wybodaeth sydd ei hangen yw manylion y Sefydliadau Dyfarnu y mae canolfan yn sefyll cymwysterau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 gyda nhw yn y gyfres i ddod.

4.2 Ffurflen AOI2

Efallai bydd achlysuron lle nad ydym yn gallu dod o hyd i ddata ar gyfer ymgeisydd penodol. Gall hyn fod am nifer o resymau; symud canolfan, newid enw, cofrestriad coll, neu'r ffaith nad yw'r data hanesyddol yn cwrdd â lefel bresennol y cofrestriad, ac ati. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd CBAC yn cysylltu â'r ganolfan ac yn holi am dystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol (llythrennedd a rhifedd) neu'r wybodaeth gofrestru gyfredol ar gyfer y gyfres sydd i ddod.

Ffurflen AOI2 Tystiolaeth Dderbyniol	
Rhaid i dystiolaeth sy'n cefnogi cyflawniadau blaenorol fod yn ddogfennau swyddogol gan y sefydliad dyfarnu sy'n gyfrifol a dylai gynnwys: • Enw'r ymgeisydd, dyddiad geni, Dangosydd Ymgeisydd Unigryw, • Enw'r sefydliad dyfarnu a logo; • Enw llawn y cymhwyster; • Y canlyniad a gyflawnwyd; • Y dyddiad dyfarnu. Enghreifftiau: tystysgrif ymgeisydd, sgrinlun o borth y Sefydliad Dyfarnu yn dangos gwybodaeth ymgeisydd	Rhaid i'r dystiolaeth sy'n cefnogi gwybodaeth gofrestru gyfredol gynnwys: • Enw'r ymgeisydd, dyddiad geni, Dangosydd Ymgeisydd Unigryw, • Enw'r sefydliad dyfarnu, • Enw llawn y cymhwyster; • a/neu Rhif Achredu'r Cymhwyster (QAN).
Bydd CBAC yn derbyn allbrint wedi'i sganio o Gofnod Dysgu Personol (PLR) yr ymgeisydd fel tystiolaeth o gyflawniad, cyn belled â'i fod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.	Bydd CBAC yn derbyn allbrint wedi'i sganio o system Gwybodaeth Reoli (MIS) canolfan cyn belled â'i fod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.
Gellir sganio ac e-bostio tystiolaeth i wbq@cbac.co.uk ond rhaid iddi fod yn glir ac yn ddarllenadwy. Mae CBAC yn cadw pob hawl i wrthod tystiolaeth os nad yw'n bodloni'r meini prawf a restrir.	

5. E-GYFLWYNO

Mae CBAC bellach yn gallu derbyn cyflwyniadau electronig o waith ymgeiswyr drwy ein platfform SecureAssess. Rhaid i bob darn o waith ymgeiswyr ar gyfer y cydrannau a restrir isod gael ei gyflwyno trwy'r platfform hwn yn Ionawr 2020 a Mehefin 2020.

Rhestrir y cydrannau hyn isod:

Ionawr a Mehefin 2020

90S9U1/N1 Cenedlaethol/Sylfaen CA4 Project Unigol
90S9U2/N2 Cenedlaethol/Sylfaen Her Menter a Chyflogadwyedd
90S9U3/N3 Cenedlaethol/Sylfaen Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
90S9U4/N4 Cenedlaethol/Sylfaen CA4 Her y Gymuned

90S3U1/N1 Uwch – Project Unigol
90S3U2/N2 Uwch – Her Menter a Chyflogadwyedd
90S3U3/N3 Uwch – Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
90S3U4/N4 Uwch – Her y Gymuned

Rhaid llwytho'r gwaith i fyny erbyn y dyddiadau cau a restrir ar dudalen 19 y ddogfen hon.

Gellir gweld canllawiau cyffredinol i'r broses e-gyflwyno, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, ar y dudalen E-gyflwyno yn adran Athrawon www.cbac.co.uk

https://www.cbac.co.uk/teachers/e-submission/?language_id=2

6. CYMEDROLI

Bydd marciau canolfannau yn cael eu cymedroli'n allanol gan CBAC er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn gyson mewn ac ar draws canolfannau.

6.1 Cadw gwaith a asesir yn fewnol yn ddiogel

Rhaid cwblhau 3 Her y Dystysgrif Her Sgiliau dan amodau asesiad dan reolaeth. Nodir y rheolaethau hyn yn benodol yn y tabl Rheoli Asesu yn y Llawlyfr Cyflwyno perthnasol ar gyfer pob lefel a geir ar dudalen we'r pwnc: https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/?language_id=2

Sylwch mai cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod yr holl ddeunydd asesu (gan gynnwys gwaith myfyrwyr) yn cael ei storio'n ddiogel o fewn y ganolfan, fel arfer mewn cwpwrdd dan glo ac yn unol â gofynion y Cyd-Gyngor Cymwysterau. Rhaid storio'r deunyddiau a'r gwaith yn ddiogel drwy gydol y cyfnod asesu ac hyd nes bod y dyddiad cau ar gyfer gwasanaethau ar ôl y canlyniadau wedi mynd heibio. Rhaid casglu'r gwaith a wneir dros nifer o sesiynau ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel. Mae'n rhaid i waith sy'n cael ei gynhyrchu'n electronig gael ei arbed yn ddiogel i sicrhau nad yw'n gallu cael ei ddiwygio rhwng sesiynau. Dylai gwaith sy'n cael ei storio ar gof bach hefyd gael ei gasglu ar ôl pob sesiwn.

Bydd methu â chydymffurfio yn golygu camymddwyn a gall olygu bod gwaith yn anghymwys i'w asesu. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw achosion o gamymddwyn i dîm Cydymffurfiaeth CBAC a byddant yn cael eu hymchwilio'n llawn.

6.2 Cyflwyno Marciau Asesiad Mewnol

Pan fydd cofrestriadau wedi cael eu cyflwyno a'u prosesu gan CBAC, rhaid i ganolfannau fewngofnodi i [wefan ddiogel](#) CBAC a chlicio'r botwm 'mewnbynnu marciau asesiad mewnol' (IAMIS). Bydd tudalen we ar gael ar gyfer pob cydran mae'r ganolfan wedi'i chofrestru amdani; bydd y dudalen eisoes yn cynnwys enwau a rhifau'r ymgeiswyr. Bydd angen i ganolfannau fewnbynnu'r **marciau a blaenlythrennau'r aseswr** ar gyfer pob ymgeisydd yn y lleoedd gwag a ddarperir. Bydd gwybodaeth a chefnogaeth bellach i'w cael ar yr amrywiol sgriniau mewnbynnu marciau.

Cyflwyno canlyniadau – trwy gyflwyno canlyniadau i CBAC rydych chi'n datgan y canlynol:

- Bod y cymedroli mewnol i gyd wedi ei gwblhau;
- Bod y marciau sydd wedi cael eu cyflwyno yn gywir ac yn ddilys;
- Bod gwaith ymgeiswyr wedi'i gwblhau ac ar gael i'w gymedroli'n allanol

Newid marciau ar ôl eu cyflwyno – nid yw'n bosibl i'r ganolfan newid marciau ar ôl eu cyflwyno drwy IAMIS. Os ydy athrawon yn sylwi bod y marc anghywir wedi ei gyflwyno, **rhaid** i'r Swyddog Arholiadau neu Gydlynnydd Bagloriaeth Cymru anfon e-bost at wbq@cbac.co.uk a chynnwys y wybodaeth ganlynol:

- rhif y ganolfan
- enw'r ymgeisydd
- enw a lefel yr her
- hen farc a marc newydd
- rheswm dros y newid.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i wneud cais i weld unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chais i ddiwygio marciau.

Newid marciau ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau - os yw athro neu athrawes yn sylwi bod marc anghywir wedi cael ei gyflwyno ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, **rhaid** i Bennaeth y Ganolfan anfon cais ysgrifenedig yn esbonio'r amgylchiadau yn eglur i'r cyfeiriad isod er mwyn i'r marc gael ei newid. **Rhaid** cynnwys y gwaith ei hun (neu gopi ohono) yn ogystal â thaflen farciau fewnol y ganolfan wedi'i chwblhau, ei llofnodi a'i dyddio gyda'r cais ysgrifenedig hwn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfeirio at y swyddog pwnc. Ar ôl i'r dystiolaeth gael ei hystyried gellir newid y marc neu gellir gwrthod y cais. **Rhaid** derbyn pob cais i ddiwygio marciau a gyflwynwyd gan ganolfannau erbyn **9 Ebrill** (Cyfres Ionawr) a **19 Medi** (Cyfres Mehefin).

Gweithrediadau CBC, CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd
CF5 2YX

Mae CBAC yn monitro diwygiadau i farciau sy'n cael eu cyflwyno gan ganolfannau a gall gynnal gwiriadau ychwanegol.

6.3 Sampl i'w Gymedroli

Caiff maint y sampl ei seilio ar nifer yr ymgeiswyr a gofrestrir i roi lleiafswm maint y sampl ac wedyn ar nifer yr aseswyr; gydag o leiaf tri ymgeisydd i'w dewis o grŵp pob aseswr. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r ystod marciau a ddyfernir, gan gynnwys y marc uchaf ac isaf yn y ganolfan. Bydd samplau'n cael eu dewis yn awtomatig a bydd modd eu gweld ar IAMIS, ac yna bydd rhaid iddynt gael eu hanfon at y cymedrolwr neu eu llwytho i fyny ar SecureAssess erbyn y dyddiad a nodir.

Cenedlaethol/Sylfaen CA4, Sylfaen (ôl-16), Cenedlaethol (ôl-16) ac Uwch

<i>Cyfanswm yr ymgeiswyr</i>	<i>Lleiafswm yn y sampl</i>
1 – 10	Pob un
11 - 100	10
101 - 200	15
201 - 500	25
501 - 999	50

Ymgeiswyr Unigol - rhaid i waith sy'n rhan o'r sampl fod ar gael i'w gymedroli. Os nad yw gwaith ymgeisydd ar gael, cofnodir y marc fel 0.

Cofrestriadau a wneir ar ôl cyflwyno'r marciau – ni ddylai canolfannau gofrestru ymgeiswyr unwaith y mae'r sampl ar gael. Os cofrestrir mwy o ymgeiswyr, mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am gael anfon y gwaith at y cymedrolwr yn ogystal â'r sampl gwreiddiol. Caiff marc o 0 ei gofnodi am unrhyw waith nad yw'n cael ei anfon at y cymedrolwr pan wneir cais amdano.

Dilysu – Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai ei gwaith nhw a gyflwynir i'w asesu. Mae dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Asesiadau Dan Reolaeth, sydd ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk), yn rhoi cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd.

6.4 Dogfennau Gofynnol

Cenedlaethol/Sylfaen CA4 ac Uwch

Llyfryn Asesu Ymgeisydd – mae'n rhaid i hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno ar y cyd â gwaith ymgeiswyr. Mae'r llyfryn yn cynnwys y daflen asesu, datganiad yr ymgeisydd a'r aseswr a'r daflen amser asesu. Gellir dod o hyd i'r llyfryn ar y [wefan ddiogel](#) o dan Adnoddau> Tasgau Asesu dan Reolaeth. Rhaid i bob ymgeisydd yn y garfan gwblhau llyfryn Asesu Ymgeisydd (nid y rhai a gynhwysir yn y sampl cymedroli yn unig). Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. *

Cenedlaethol (ôl-16)/Sylfaen (ôl-16)

Datganiad Ymgeisydd a Thaflen Amser – mae'r rhain ar gael ar gyfer tair Her y Dystysgrif Her Sgiliau a rhaid eu cwblhau a'u cynnwys gyda gwaith yr ymgeiswyr. **Rhaid i bob** ymgeisydd (nid y rhai a gynhwysir yn y sampl cymedroli yn unig) **lofnodi'r** datganiad yn nodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a asesir yn fewnol (yn ogystal ag unrhyw eithriadau a nodwyd). Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. *

Taflen Asesu – rhaid llenwi'r daflen asesu sy'n cynnwys datganiad yr athro/aseswr a'i chynnwys gyda gwaith yr ymgeisydd. Mae taflen asesu'r Project Unigol hefyd yn cynnwys datganiad yr ymgeisydd a rhaid i'r ymgeisydd a'r athro/aseswr ei lofnodi yn cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yw'r gwaith ar y daflen asesu. Rhaid bod gan **bob** ymgeisydd yn y garfan (nid y rhai a gynhwysir yn y sampl i'w gymedroli yn unig) daflenni asesu wedi'u cwblhau a'u llofnodi. Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. *

Mae Datganiad yr Ymgeisydd a'r Daflen Amser a thaflenni asesu'r gydran ar gael drwy anfon e-bost at julie.rees@wjec.co.uk.

*** Bydd gwaith sy'n cael ei dderbyn heb y dogfennau hyn yn cael ei gofnodi fel methiant.**

6.5 Cymedroli mewnol

Dylai'r sampl fod yn **gynrychiadol** o safon farcio'r ganolfan. Mae'n hanfodol bod proses o gymedroli mewnol yn digwydd **cyn** i'r marciau terfynol gael eu cyflwyno i CBAC. Bydd dull addas o gyflawni hyn yn dibynnu ar drefniant y ganolfan ei hun. Un person ddylai gymryd cyfrifoldeb am y broses gymedroli derfynol ym mhob canolfan. **Rhaid i'r asesswr arweiniol ail-asesu sampl o ymgeiswyr pob asesswr.**

6.6 Cymedroli allanol

Bydd cymedrolwr CBAC yn ystyried y sampl a gyflwynwyd. Pe bai ymholiad yn codi, gallai CBAC ofyn am ddarparu sampl pellach.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau lle mae CBAC yn gwneud cais i weld mwy o waith, gweithredir y protocolau canlynol:

- Bydd staff gweinyddol CBAC yn cysylltu â'r Swyddog Arholiadau yn y ganolfan i gadarnhau ar lafar bod y cymedrolwr wedi gwneud cais i weld mwy o waith.
- Bydd CBAC yn gofyn i'r gwaith gyrraedd y cymedrolwr o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad gwneud y cais, ac yn rhoi dyddiad penodol.
- Bydd CBAC yn anfon e-bost dilynol at y Swyddog Arholiadau i gadarnhau'r cais.

Noder na fydd staff CBAC yn trafod y mater gydag unrhyw un heblaw'r Swyddog Arholiadau, ac ni fyddant yn gallu trafod y rheswm pam y gofynnwyd am ragor o waith.

Ar rai achlysuron bydd CBAC yn ymweld â'r ganolfan i weld unrhyw waith ychwanegol y gofynnir amdano.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o waith neu i ymweld â chanolfan ar fyr rybudd neu heb roi gwybod ymlaen llaw.

6.7 Adborth

Darperir adborth ynglŷn â chymedroli pan gyhoeddir y canlyniadau, drwy gyfrwng adroddiad cymedrolwr sydd ar gael ar IAMIS. Bydd adroddiad y cymedrolwr yn cynnig adborth ar:

- (i) effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan;
- (ii) cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni ar gyfer pob un o ddeilliannau dysgu'r gydran;
- (iii) a newidiwyd marciau'r ganolfan a'r rhesymau dros wneud hynny.

6.8 Canllawiau cyflwyno gydag amgryptio

Mae sawl canolfan arholiadau wedi holi CBAC ynglŷn ag amgryptio gwaith ymgeiswyr cyn ei gyflwyno ar yriant USB. **Nid yw CBAC yn gofyn i ganolfannau wneud hyn;** y ganolfan sydd i benderfynu p'un a oes angen gwneud hyn, yn unol â'i pholisïau diogelu data a'i pholisïau diogelwch ei hun. Fodd bynnag, os bydd canolfannau'n dewis gwneud hyn yna dylid dilyn y canllawiau canlynol.


Argymhelliad CBAC yw bod canolfannau'n cyflwyno gwaith ar USB yn hytrach nag ar unrhyw ffurf arall.

Y dulliau sy'n cael eu hargymell yw archifau Zip neu Windows BitLocker To Go wedi'u hamgryptio. Os caiff unrhyw ddulliau eraill eu defnyddio (er enghraifft ffeiliau gweithredadwy sy'n echdynnu eu hunain), efallai na fydd hi'n bosibl i ni eu derbyn gan y byddant yn cael eu rhwystro gan ein meddalwedd diogelwch.

Rydym yn argymhell bod canolfannau nad oes ganddynt feddalwedd presennol ar gyfer creu archifau wedi'u hamgryptio yn defnyddio 7-zip:

Defnyddio 7-zip i greu archif wedi'i amgryptio: dull archifo rhad ac am ddim ar gyfer Windows yw 7-zip. Gwnewch yn siŵr bod y fersiwn diweddaraf gennych oddi ar <https://www.7-zip.org/download.html> (peidiwch â'i lwytho i lawr o safleoedd eraill oherwydd gallai'r rhain gynnwys maleiswedd).

- De-gliciwch ar y ffolder rydych yn dymuno ei hamgryptio a dewiswch 'ychwanegu at yr archif.../add to archive...'
- Gwnewch yn siŵr mai'r 'AES-256' yw'r dull amgryptio – hwn yw'r dull cryfaf
- Gwnewch yn siŵr mai 'zip' yw fformat yr archif



Rydym yn cynghori eich bod yn defnyddio cyfrinair neu ymadrodd cyfrin i amgryptio'r ffeil. Rydym hefyd yn cynghori eich bod yn defnyddio cyfrinair gwahanol ar gyfer pob archif. Dylai cyfrineiriau gynnwys o leiaf 15 nod er mwyn sicrhau lefel resymol o ddiogelwch.

Os nad oes generadur cyfrinair ar hap gennych yn barod, gellir defnyddio'r systemau ar-lein canlynol:

- https://www.fourmilab.ch/javascript/pass_phrase.html
- <https://www.grc.com/passwords.html>

Gallwch anfon y ffon USB yn cynnwys yr archif wedi'i hamgryptio fel arfer. Dylid anfon cyfrineiriau i encryption@wjec.co.uk. Dylid nodi rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd/rhifau'r ymgeiswyr, y pwnc a'r lefel yn glir yn yr e-bost.

Noder: os na fyddwn yn gallu adnabod y ffeil a'r cyfrinair yn glir, ni fyddwn yn gallu cael mynediad at y gwaith. (Noder bod anfon cyfrineiriau dros e-bost yn dderbyniol yn yr achos hwn gan eu bod yn cael eu hanfon gan ddefnyddio dull gwahanol i'r ffon USB. Peidiwch ag anfon y ffon USB a'r cyfrinair gyda'i gilydd!)

Mae canllawiau ar ddefnyddio Bitlocker To Go ar gael yma:

<https://www.techrepublic.com/blog/windows-and-office/secure-your-usb-drives-with-bitlocker-to-go-for-windows-7/>

Ni all CBAC gynnig arweiniad ynghylch creu cyfryngau wedi'u hamgryptio â Bitlocker, dylai canolfannau ymgynghori â'u hadrannau TG eu hunain ar sail achosion unigol.

6.9 Dyddiadau cymedroli

Ionawr 2020

Cenedlaethol/Sylfaen (CA4)

Ionawr 2020	
IAMIS ar gael o	9 Rhagfyr
Dyddiad cau cyflwyno gwaith	10 Ionawr

Uwch

Ionawr 2020	
IAMIS ar gael o	13 Rhagfyr
Dyddiad cau cyflwyno gwaith	13 Ionawr

Mehefin 2020

Cenedlaethol/Sylfaen (CA4)

Mehefin 2020	
IAMIS ar gael o	24 Ebrill
Dyddiad cau cyflwyno gwaith	7 Mai

Uwch

Mehefin 2020	
IAMIS ar gael o	7 Mai
Dyddiad cau cyflwyno gwaith	22 Mai

Sylfaen (ôl-16) a Chenedlaethol (ôl-16)

Mehefin 2020	
IAMIS ar gael o	1 Mehefin
Dyddiad cau cyflwyno gwaith	10 Mehefin

7. CANLYNIADAU

7.1 Canlyniadau

Cyhoeddir canlyniadau ar y wefan ddiogel ac fel ffeil cyfnewid data electronig (EDI):

Cyfres Ionawr	
Cenedlaethol/Sylfaen CA4	5 Mawrth 2020
Uwch	5 Mawrth 2020

Cyfres Mehefin	
Cenedlaethol/Sylfaen CA4	21 Awst 2020
Uwch	14 Awst 2020
Sylfaen (ôl-16)	21 Awst 2020
Cenedlaethol (ôl-16)	21 Awst 2020

7.2 Ymholiadau agregu

Gall canolfannau wneud ymholiadau ynglŷn ag **agregu** canlyniadau ymgeiswyr o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau hyd at 9 Ebrill (Cyfres Ionawr) ac 19 Medi (Cyfres Mehefin).

Mae agregu hefyd yn cynnwys cymwysterau ategol sydd ar goll.

Er mwyn cadw'r nifer o ymholiadau agregu ar ôl y canlyniadau yn isel, mae'n hollbwysig bod canolfannau'n darparu gwybodaeth fanwl gywir i CBAC, a chwrdd â therfynau amser yn enwedig o ran manylion adnabod a data ymgeiswyr, e.e. enw cywir a chyson, Dangosydd Ymgeisydd Unigryw i adnabod ymgeiswyr ar draws y canlyniadau i gyd.

Sylwer, ymdrinnir ag ymholiadau agregu yn y drefn y cânt eu derbyn. **Rhaid anfon ymholiadau agregu i gyfeiriad e-bost wbq@cbac.co.uk**

Tystiolaeth Dderbyniol – Dylai tystiolaeth i gefnogi ymholiadau agregu fod yn:		
Ddogfennaeth swyddogol o'r sefydliad dyfarnu sy'n gyfrifol a dylai gynnwys: • Enw a dyddiad geni'r ymgeisydd • Enw'r sefydliad dyfarnu a logo; • Enw llawn y cymhwyster; • Y canlyniad a gyflawnwyd; • Y dyddiad dyfarnu. Enghreifftiau: tystysgrif, sgrinlun o borth/gwefan y Sefydliad Dyfarnu yn dangos cyflawniad ymgeisydd ac ati.	NEU	Derbynnir allbrint wedi'i sganio o Gofnod Dysgu Personol (PLR) yr ymgeisydd fel tystiolaeth o gyflawniad, cyn belled â'i fod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.
Gellir sganio ac e-bostio tystiolaeth i wbq@cbac.co.uk ond rhaid iddi fod yn glir ac yn ddarllenadwy. Mae CBAC yn cadw pob hawl i wrthod tystiolaeth os nad yw'n bodloni'r meini prawf a restrir uchod.		

7.3 Adolygu'r cymedroli ar ôl y canlyniadau

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. Noder nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael os derbyniodd CBAC farciau eich canolfan heb eu newid.

Dylid ystyried y canlynol wrth gyflwyno cais am adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau:

- Dylid cyflwyno'r cais i CBAC gan ddefnyddio'r dull arferol.
- Nid yw'n angenrheidiol cael cydsyniad yr ymgeisydd.
- **Rhaid** derbyn ceisiadau cyfres lonawr erbyn 9 Ebrill; **rhaid** i'r sefydliad dyfarnu dderbyn y cais erbyn 19 Medi ar gyfer cyfres yr haf.
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau yw o fewn 35 diwrnod calendr ar ôl i'r safonwr dderbyn y sampl gwaith gwreiddiol gan y ganolfan.
- Cynhelir y gwaith o adolygu'r cymedroli ar y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr.
- Gall yr adolygiad o'r cymedroli gynnwys adborth tebyg i'r hyn a ddarparwyd ar ôl y cymedroli gwreiddiol.
- Os adferir marciau'r ganolfan, ni fydd adborth yn cael ei roi.
- Ni fydd adolygiad o'r cymedroli'n cael ei gynnal ar waith ymgeisydd unigol nac ar waith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl gwreiddiol.

Dim ond ar gyfer y gyfres y cyflwynwyd y cais ar ei chyfer y gellir adolygu'r cymedroli.

Rhaid i ganolfannau sydd â'r sampl gwaith gwreiddiol yn eu meddiant, wneud yn siŵr ei fod yn barod i'w anfon, a bydd manylion y cymedrolwr i anfon y gwaith ato'n cael eu darparu ar gyfer y ganolfannau. **Ni ddylid** anfon gwaith a aseswyd gan y ganolfan wrth gyflwyno'r cais. Bydd gwaith a lwythwyd i fyny i SecureAssess ar gael i'r cymedrolwr yn barod ac yn cael ei gyrchu fel y bo'n briodol.

Yn achos gwaith a gyflwynir am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid**:

- **Ei anfon at y cymedrolwr o fewn tri (3) diwrnod gwaith – gall methiant i wneud hyn ohirio canlyniad yr ymholiad neu arwain at ganslo'r ymholiad;**
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymedroli;
- bod wedi'i gadw dan amodau diogel a heb ei ddychwelyd at yr ymgeiswyr.

Ewch i <https://www.cbac.co.uk/swyddogion-arholiadau/gwasanaeth-ar-ôl-y-canlyniadau> am ragor o wybodaeth gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn.

7.4 Tystysgrifau

Caiff tystysgrifau eu rhyddhau i ganolfannau yn ystod tymor yr hydref ar ôl cyhoeddi canlyniadau. Ni fydd tystysgrifau'n cael eu rhyddhau cyn diwedd dyddiad cau'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau, sef 19 Medi. Y dyddiad olaf y bydd tystysgrifau'n cael eu rhyddhau yw 7 Tachwedd.

8. CYMWYSTERAU ATEGOL

8.1 Gofynion cymwysterau ategol

Sylwer mai cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod cwrs astudio yn bodloni'r meini prawf a restrir isod cyn iddi gychwyn ar y cymhwyster. Argymhellir bod canolfannau'n gwirio'r cymhwyster ar ddechrau'r cwrs i wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn gallu bodloni'r gofynion wrth gyfnewid.

Mae angen cymwysterau llawn i fodloni'r meini prawf; ni ellir defnyddio unedau sydd wedi'u cyflawni.

Gellir gwirio meini prawf cymwysterau drwy ddefnyddio cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru: <https://www.qiw.wales/qualifications/search?lang=cy>

Rhaid i bob cymhwyster gael ei reoleiddio gan Cymwysterau Cymru neu OFQUAL.

Lefel	Llythrennedd a Rhifedd	Cymwysterau ategol eraill
Uwch	TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (A*-C) a TGAU Mathemateg (A*-C) neu TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-C)	Dau gymhwyster Safon Uwch gradd A*-E, neu hyd at ddau gymhwyster Lefel 3 cyfwerth gyda chyfanswm o 600 ODA o leiaf. (O leiaf un werth 600 neu ddau werth o leiaf 300, sy'n gallu bod yn Safon Uwch neu'n alwedigaethol).
Cenedlaethol/Sylfaen CA4 Sylfaen	TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (A*-G) a TGAU Mathemateg (A*-G) neu TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-G)	Lleiafswm o dri TGAU pellach gradd A*-G, dylai dau ohonynt fod yn gywerth ag o leiaf 240 ODA (120 ODA i un cymhwyster cywerth)
Cenedlaethol/Sylfaen CA4 Cenedlaethol	TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (A*-C) a TGAU Mathemateg (A*-C) neu TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-C)	Lleiafswm o dri TGAU pellach gradd A*-C, dylai dau ohonynt fod yn gywerth ag o leiaf 240 ODA (120 ODA i un cymhwyster cywerth)
Sylfaen (ôl-16)	TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith (A*-G) neu SHC Cyfathrebu Lefel 1 neu uwch a TGAU Mathemateg (A*-G) neu TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-G) neu SHC Cymhwysio Rhif Lefel 1 neu uwch	Cymwysterau Lefel 1 gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf o uchafswm o bedwar cymhwyster penodol
Cenedlaethol (ôl-16)	TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith (A*-C) neu SHC Cyfathrebu Lefel 2 neu uwch a TGAU Mathemateg (A*-C) neu TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-C) neu SHC Cymhwysio Rhif Lefel 2 neu uwch	Cymwysterau Lefel 2 gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf o uchafswm o bedwar cymhwyster penodol

D.S. Gall y cymwysterau Llythrennedd a Rhifedd gael eu cwblhau yn ystod neu cyn cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru ond **rhaid** i'r cymwysterau ategol gael eu cyflawni yn ystod y cyfnod y mae'r ymgeisydd wedi'i ymrestru.

8.2 Cymwysterau ategol Llythrennedd a Rhifedd sy'n cael eu derbyn

Dan rai amgylchiadau derbynnir cymwysterau llythrennedd a rhifedd eraill.

Noder nad yw'r rhestr isod yn un gynhwysfawr ac fe fyddwn yn ei diweddaru unwaith y byddwn yn derbyn cadarnhad. Am unrhyw gymwysterau nad ydynt ar y rhestr, gwnewch ymholiad drwy e-bostio wbq@cbac.co.uk

Gellir defnyddio cymwysterau Saesneg a Mathemateg a gyflawnwyd â chanlyniadau TGAU 9 i 1 i gyfrannu tuag at ofynion Llythrennedd a Rhifedd Bagloriaeth Cymru. Caiff graddau 9-4 eu hystyried yn gywerth i A*-C ar gyfer y lefelau Uwch, Cenedlaethol CA4 a Cenedlaethol ôl-16.

<https://ofqual.blog.gov.uk/wp-content/uploads/sites/137/2018/01/Grading-2018-1.png>

Cymwysterau Mathemateg sy'n cael eu derbyn	
Rhif Achredu'r Cymhwyster (QAN)	Cymhwyster
500/7914/1	CBAC TGAU Lefel 1/Lefel 2 Dulliau mewn Mathemateg (Peilot) (Gellir derbyn y cymhwyster hen fanyleb hwn i ymgeiswyr sydd eisoes wedi'i gyflawni).
500/7915/3	CBAC TGAU Lefel 1/Lefel 2 Dulliau mewn Cymwysiadau Mathemateg (Peilot) (Gellir derbyn y cymhwyster hen fanyleb hwn i ymgeiswyr sydd eisoes wedi'i gyflawni).
500/7929/3	CBAC Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol
600/7777/3	OCR Tystysgrif Caergrawnt Lefel 1 Mathemateg (FfCCh)
600/7778/5	OCR Tystysgrif Caergrawnt Lefel 2 Mathemateg (FfCCh)
601/4606/0	OCR TGAU Lefel 1/2 (9-1) Mathemateg
500/7849/5	OCR TGAU Lefel 1/Lefel 2 Cymwysiadau Mathemateg (Peilot)
500/7881/1	OCR TGAU Lefel 1/Lefel 2 Dulliau mewn Mathemateg (Peilot)
500/7764/8	OCR TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg A
500/7923/2	OCR TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg B
500/9480/4	AQA Tystysgrif Lefel 1/Lefel 2 Defnyddio Mathemateg
600/2123/8	AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
601/4608/4	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 (9-1) Mathemateg
500/7931/1	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Cymwysiadau Mathemateg
500/7856/2	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg
500/8495/1	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg B
500/7942/6	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Dulliau mewn Mathemateg
500/7940/2	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Cymwysiadau Mathemateg (Peilot)
500/7949/9	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Dulliau mewn Mathemateg (Peilot)
500/7916/5	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg A
500/7886/0	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg B
600/0475/7	Pearson Tystysgrif Lefel 1/Lefel 2 Mathemateg

Cymwysterau Saesneg sy'n cael eu derbyn	
Rhif Achredu'r Cymhwyster (QAN)	Cymhwyster
600/1358/8	CBAC Tystysgrif Lefel 1/Lefel 2 mewn Saesneg iaith (Gellir derbyn y cymhwyster hen fanyleb hwn i ymgeiswyr sydd eisoes wedi'i gyflawni).
600/7782/7	OCR Tystysgrif Caergrawnt Lefel 1 Saesneg (FfCCh)
600/7783/9	OCR Tystysgrif Caergrawnt Lefel 2 Saesneg (FfCCh)
601/4575/4	OCR TGAU Lefel 1/2 (9-1) Saesneg iaith
601/3168/8	OCR TGAU Lefel 1/2 Saesneg
601/3167/6	OCR TGAU Lefel 1/2 Saesneg iaith
500/7912/8	OCR TGAU Lefel 1/Lefel 2 Saesneg
600/1999/2	AQA Tystysgrif Lefel 1/2 Saesneg iaith
601/4292/3	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 (9-1) Saesneg iaith
500/7917/7	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Saesneg
601/3159/7	AQA TGAU Lefel 1/Lefel 2 Saesneg
500/7909/8	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Saesneg
601/3157/3	Pearson Edexcel TGAU Lefel 1/Lefel 2 Saesneg

8.3 Cymwysterau Mathemateg a Saesneg a gyflawnir y tu allan i'r DU

Lle cyflawnwyd cymwysterau y tu allan i'r DU, mae gofyn i ganolfannau ddarparu tystiolaeth bod:

- y cymhwyster yn gyfwerth â'r Radd TGAU/Lefel FfCC priodol i ganiatáu iddynt gyfrannu at Fagloriaeth Cymru yn lle TGAU Saesneg iaith/Cymraeg iaith a/neu Fathemateg/Mathemateg Rhifedd. Dim ond ychydig o gymwysterau sy'n gywerth ac yn dderbyniol o ran lefel â TGAU Saesneg.

Nid yw Cymraeg a Saesneg fel ail iaith yn dderbyniol.

- y cymhwyster yn ddigon eang o ran cynnwys a maint ac nid yw'n canolbwyntio ar un elfen ar y pwnc (er enghraifft ni fyddai cymhwyster Mathemateg sy'n trafod ystadegau yn unig yn ddigon i gymryd lle TGAU Mathemateg, waeth beth fo'r lefel).

Fodd bynnag, os yw dysgwr yn cyflawni cymhwyster Uwch Gyfrannol neu Uwch mewn Mathemateg neu Saesneg iaith, derbynnir hyn fel cymhwyster ategol.

O ran pwynt i:

- Gwiriwch wefan UK NARIC: <https://www.naric.org.uk/naric/>

Atgoffir canolfannau bod asesiad ar gael yn Gymraeg a/neu Saesneg. Ym mhob achos, dylai'r ganolfan sicrhau bod sgiliau iaith Saesneg/Cymraeg digonol gan y dysgwr i'w alluogi i gwblhau'r cymhwyster.

9. GRADDIO AC ADRODD YN ÔL

9.1 Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen (CA4)

Gellir dyfarnu gradd Sylfaen neu Genedlaethol i'r cymhwyster. Rhoddir gradd A*-C am y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol. Ar gyfer y dyfarniad Cenedlaethol, **rhaid** i'r dysgwr lwyddo ym mhob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her, gydag **o leiaf 80% ar lefel 2** ac 20% arall ar lefel 1.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen yn cael ei graddio gyda Llwyddiant* Lefel Sylfaen neu Llwyddiant Lefel Sylfaen. Ar gyfer y dyfarniad Sylfaen, **rhaid** i'r dysgwr lwyddo ym mhob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her, gyda phob un o leiaf ar lefel 1. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

	Cenedlaethol				Sylfaen		
Ffiniau Graddau	A*	A	B	C	Llwyddiant*	Llwyddiant	U
Cyfanswm GMU	270	240	180	120	90	60	0
%	90%	80%	60%	40%	30%	20%	0%

Cydrannau

Mae graddau cydrannau'n gyfystyr â graddau'r Dystysgrif: mae Rhagoriaeth Lefel 2 yn gyfystyr â gradd A, Teilyngdod Lefel 2 â gradd B, Llwyddiant Lefel 2 â gradd C a Llwyddiant Lefel 1 â Llwyddiant Sylfaen. Ar gyfer pob cydran, gosodir ffin Teilyngdod Lefel 2 yn rhifyddol, hanner ffordd rhwng Llwyddiant Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2; pennir y ffiniau gradd eraill yn ôl barn yr arholwyr.

Pennir ffiniau gradd yn y drefn ganlynol:

Cydran	Pwysoli	Uchafswm marciau crai	Uchafswm marc GMU	Rhagoriaeth Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Llwyddiant Lefel 2	Llwyddiant Lefel 1
Project Unigol	50%	96	150	120	90	60	30
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	36	60	48	36	24	12
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	36	45	36	27	18	9
Her y Gymuned	15%	36	45	36	27	18	9
%			100%	80%	60%	40%	20%

Ar gyfer y dyfarniad Cenedlaethol, rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran gydag **o leiaf 80% ar lefel 2** a 20% ar y mwyaif (un Her) ar lefel 1 i gyflawni cymhwyster gradd A*-C. Pan fo dysgwyr wedi cwrdd â'r gofyniad 80% ond heb gyflawni 120 marc unfurf, dyfernir gradd C iddynt.

9.2 Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (ôl-16)

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu cofnodi fel naill ai gradd Llwyddiant* neu radd Llwyddiant. I ddyfarnu gradd, **rhaidd** i'r dysgwr lwyddo ym mhob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau graddau	Llwyddiant*	Llwyddiant	U
Cyfanswm GMU	210	120	0
%	70%	40%	0%

Cydrannau

Mae graddau cydrannau'n gyfystyr â graddau'r Dystysgrif: mae Teilyngdod yn gyfystyr â Llwyddiant* a Llwyddiant yn gyfystyr â Llwyddiant cyffredinol. Pennir ffiniau Teilyngdod a Llwyddiant yn ôl barn yr arholwyr.

Pennir ffiniau gradd yn y drefn ganlynol:

Cydran	Pwysoli	Uchafswm marciau crai	Uchafswm marc GMU	Teilyngdod Lefel 1	Llwyddiant Lefel 1
Project Unigol	50%	72	150	105	60
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	36	60	42	24
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	36	45	32	18
Her y Gymuned	15%	27	45	32	18
%			100%	70%	40%

9.3 Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (ôl-16)

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i C. I ddyfarnu gradd, **rhaid** i'r dysgwr lwyddo ym mhob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau graddau	A*	A	B	C	U
Cyfanswm GMU	270	240	180	120	0
%	90%	80%	60%	40%	0%

Cydrannau

Mae graddau cydrannau'n gyfystyr â graddau'r Dystysgrif: mae Rhagoriaeth Lefel 2 yn gyfystyr â gradd A, Teilyngdod Lefel 2 â gradd B, Llwyddiant Lefel 2 â gradd C a Llwyddiant Lefel 1 â Llwyddiant Sylfaen. Ar gyfer pob cydran, gosodir ffin Teilyngdod Lefel 2 yn rhifyddol, hanner ffordd rhwng Llwyddiant Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2; pennir y ffiniau gradd eraill yn ôl barn yr arholwyr.

Pennir ffiniau gradd yn y drefn ganlynol:

Cydran	Pwysoli	Uchafswm marciau crai	Uchafswm marc GMU	Rhagoriaeth Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Llwyddiant Lefel 2	Llwyddiant Lefel 1
Project Unigol	50%	72	150	120	90	60	30
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	36	60	48	36	24	12
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	36	45	36	27	18	9
Her y Gymuned	15%	27	45	36	27	18	9
%			100%	80%	60%	40%	20%

Rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran gydag **o leiaf 80% ar lefel 2** a 20% ar y mwyaf (un Her) ar lefel 1 i dderbyn gradd cymhwyster. Pan fo dysgwyr wedi cwrdd â'r gofyniad hwn ond heb gyflawni 120 marc unffurf, dyfernir gradd C iddynt.

9.4 Tystysgrif Her Sgiliau Uwch

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. I ddyfarnu gradd, **rhaid** i'r dysgwr lwyddo ym mhob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau graddau	A*	A	B	C	D	E	U
Cyfanswm GMU	270	240	210	180	150	120	0
%	90%	80%	70%	60%	50%	40%	0%

Cydrannau

Mae graddau cydrannau'n gyfystyr â graddau'r Dystysgrif: mae Rhagoriaeth yn gyfystyr â gradd A, Teilyngdod â gradd C, a Llwyddiant â gradd E. Ar gyfer pob cydran, pennir ffin Teilyngdod yn rhifyddol, hanner ffordd rhwng ffiniau Llwyddiant a Rhagoriaeth; pennir y ffiniau gradd eraill yn ôl barn yr arholwyr.

Pennir ffiniau gradd yn y drefn ganlynol:

Cydran	Pwysoli	Uchafswm marciau crai	Uchafswm marc GMU	Rhagoriaeth Lefel 3	Teilyngdod Lefel 3	Llwyddiant Lefel 3
Project Unigol	50%	72	150	120	90	60
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	45	60	48	36	24
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	36	45	36	27	18
Her y Gymuned	15%	27	45	36	27	18
%			100%	80%	60%	40%

9.5 Tystysgrif Her Sgiliau Uwch a Thariff UCAS

I gael gwybodaeth am y Dystysgrif Her Sgiliau a thariff UCAS, ewch i:

<https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator> a dewis Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Welsh Baccalaureate – Advanced Skills Challenge Certificate) (i'w addysgu gyntaf ym mis Medi 2015) o blith opsiynau'r gwymplen.

I gael gwybodaeth am bolisi sefydliad unigol ynghylch Bagloriaeth Cymru, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r adran derbyn myfyrwyr perthnasol.

10. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Mae'r manylebau Cenedlaethol/Sylfaen CA4, Sylfaen (ôl-16), Cenedlaethol (ôl-16) ac Uwch wedi'u dylunio i gynnig mynediad teg i bawb ac i leihau'r angen i wneud trefniadau mynediad/newidiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr â gofynion arbennig. Fel arfer, disgwylir y bydd canolfannau wedi darparu ar gyfer gallu, diddordebau ac anghenion pob dysgwr unigol drwy ddewis o Friffiau'r Heriau a chymwysterau ategol.

10.1 Diffiniadau

Cytunir ar drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cyn asesiad. Maent yn caniatáu'r canlynol i ymgeiswyr/dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro:

- cael mynediad i'r asesiad;
- dangos yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad

Ystyriaeth Arbennig – addasiad ar ôl yr asesiad i farc/gradd ymgeisydd i adlewyrchu salwch dros dro, anaf dros dro neu anhwylder arall ar adeg yr asesu. Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr cymwys sydd:

- a) yn bresennol ar gyfer asesiad ond o dan anfantais;
- b) yn absennol o ran o asesiad oherwydd salwch neu reswm derbyniol arall – mae hyn yn berthnasol i'r gyfres derfynol yn unig.

10.2 Gweithredu Trefniadau Mynediad yn yr Heriau ac yn y Project Unigol

Rhaid gwneud cais ar gyfer yr holl drefniadau mynediad ar ddechrau'r cwrs a dylent gael eu cymeradwyo cyn yr asesiadau.

Mae'n bosibl y bydd Trefniadau Mynediad/Addasiadau Rhesymol yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn gwneud her unigol neu'r Project Unigol er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu wrth sicrhau na newidir gofynion yr asesiad. Fodd bynnag disgwylir bod her briodol yn cael ei dewis er mwyn lleihau'r angen am drefniadau o'r fath.

Mewn Heriau gwaith tîm, dim ond pan fydd aelodau eraill o'r tîm yn methu cymryd cyfrifoldeb (er enghraifft, gweler senario posibl 2, adran 10.6) y bydd Trefniadau Mynediad/Addasiadau Rhesymol yn berthnasol, sy'n sicrhau na fydd gan aelodau eraill o'r tîm fantais annheg.

10.3 Gweithredu Ystyriaeth Arbennig yn yr Heriau a'r Project Unigol

Gellir cwblhau'r Heriau a'r Project Unigol drwy gydol y cwrs; felly bydd ymgeiswyr ond yn gymwys am ystyriaeth arbennig am ddiffyg gwaith o dan yr amgylchiadau canlynol:

- maent wedi cwblhau gwaith ym mhob un o'r 4 cydran,
- mae tua 50% o'r gydran dan sylw wedi'i gwblhau (yn cynnwys yr holl Amcanion Asesu),
- ac os mai dyma'r cyfle asesu terfynol.

Os yw ymgeisydd wedi bod yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond wedi bod o dan anfantais, mae'n bosibl y byddant hefyd yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig.

I wneud cais am ystyriaeth arbennig rhaid i ganolfannau gyflwyno cais gan ddefnyddio **Ffurflen 10 – JCQ/SC**. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC – <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms/form-10-application-for-special-consideration>

Dylid dychwelyd y ffurflen i Gofynion Arbennig, CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX. Dylid atodi tystiolaeth ychwanegol fel bo'n briodol.

10.4 Gwaith ar goll sydd wedi'i asesu gan ganolfannau

Os yw gwaith ymgeisydd (heb fod yn fai arno) ar goll yn y ganolfan arholiadau, ac er gwaethaf pob ymdrech, nid oes modd dod o hyd iddo, neu os yw wedi'i ddinistrio'n ddamweiniol, dylid hysbysu'r sefydliad dyfarnu o'r amgylchiadau ar unwaith drwy ddefnyddio **Ffurflen 15 – JCQ/LCW**. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC – <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms/form-15-notification-of-lost-centre-assessed-work>

10.5 Eithriadau

Ni wneir unrhyw eithriadau ar gyfer yr Heriau na'r Project Unigol.

10.6 Senarios posibl

1. Os yw tîm yn colli un o'i aelodau ac felly'n rhy fach i gwrdd â'r gofynion (**rhaidd** cael rhwng 3 a 6 aelod mewn tîm) yr opsiwn cyntaf yw y dylai'r aelodau sy'n weddill ymuno â grŵp arall.

Rhaidd i unrhyw aelod o dîm nad yw wedi gallu gorffen yr Her ddod ag unrhyw waith a gwblhawyd gydag ef/hi pan fydd yn ymuno â'r grŵp newydd.

Os nad yw ymuno â thîm arall yn opsiwn, o ystyried amseru'r Asesiad dan Reolaeth a/neu faint y grŵp (e.e. mae gan bob grŵp yr uchafswm o 6 aelod), gall ymgeisydd gwblhau'r Her fel unigolyn, ar yr amod ei fod wedi dangos/yn mynd i ddangos tystiolaeth o weithio mewn tîm mewn Her arall. **Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed i Her lle mae gweithio mewn grŵp yn ofynnol.**

Sylwer: cewch eich cyngori i beidio â gadael Heriau lle mae gwaith tîm yn ofynnol nes ddiwedd y cwrs.

2. Mae gan ymgeisydd sy'n rhan o dîm drefniant mynediad/addasiad rhesymol a gytunwyd am ysgrifennydd a 25% o amser ychwanegol. Fodd bynnag, gan fod aelod arall o'r tîm yn gallu cymryd cofnodion yn ystod cyfarfodydd, nid yw'r trefniant/addasiad rhesymol hwn yn angenrheidiol.
3. Mae ymgeisydd yn absennol ac yn methu cwblhau Her am reswm dilys. Nid oes cyfle pellach i ymgeisydd gwblhau'r Her a dyma'r asesiad terfynol. Mae'r ymgeisydd wedi cwblhau 50% o'r Her (ac wedi ymdrin â'r amcanion asesu i gyd): felly mae'r ganolfan yn gymwys am Ystyriaeth Arbennig.

10.7 Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach ynglŷn â threfniadau mynediad gweler dogfen y CGC: *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 2019-2020* – ar gael o <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance>

Am wybodaeth bellach ynglŷn ag Ystyriaeth Arbennig gweler dogfen y CGC: *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig 2019-2020* – ar gael o https://www.cbac.co.uk/exam-officers/A%20guide%20to%20the%20spec%20con%20process%202019%20-%20Cymraeg.pdf?language_id=2

11. CAMYMDDWYN

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am achosion honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd, y ganolfan neu staff y ganolfan gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau 'Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau'.

Am fwy o wybodaeth ewch i: <https://www.icq.org.uk/exams-Office/malpractice>

12. GEIRFA

Bagloriaeth Cymru	Dyma'r fframwaith drosfwaol y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol yn ei ffurfio.
Tystysgrif Her Sgiliau	Dyma elfen cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac yn cynnwys y Project Unigol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd, yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Her y Gymuned
Elfen	Gall elfen gyfeirio at unrhyw ran o gymhwyster Bagloriaeth Cymru – e.e. y Dystysgrif Her Sgiliau, y cydrannau unigol, a'r cymwysterau ategol.
Cydran	Ystyr cydran yn benodol yw'r elfennau hynny ar y Dystysgrif Her Sgiliau h.y. y Project Unigol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd, yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Her y Gymuned.
Cymwysterau Ategol	Dyma'r cymwysterau, o'u hystyried gyda'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n cyfrannu at ganlyniad cyffredinol Bagloriaeth Cymru
Cymedroli	Dyma'r broses y mae CBAC yn ei defnyddio i sicrhau bod marciau ymgeiswyr yn cael eu dyfarnu'n gyson ac yn fanwl gywir. Dau fath o gymedroli sydd yna – mewnol ac allanol. Canolfan sy'n cwblhau'r cymedroli mewnol i sicrhau bod cysondeb ar draws carfan. CBAC sy'n cwblhau'r cymedroli allanol drwy adolygu sampl o ymgeiswyr canolfan i sicrhau bod y meini prawf cyhoeddedig wedi'u cynnal ar draws canolfannau.
Agregu	Y broses a ddefnyddir i gyfuno'r holl elfennau er mwyn cyflawni canlyniad cyffredinol ar gyfer Bagloriaeth Cymru
E-gyflwyno	Dull electronig o gyflwyno gwaith i'w gymedroli gan ganolfannau.
SURPASS	Y platfform sy'n cael ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer e-gyflwyno.
GMU	Graddfa Marciau Unffurf – caiff ei defnyddio gan fanylebau unedol i sicrhau hygrychedd a chymaroldeb ar draws cyfresi gwahanol. Defnyddir y GMU er mwyn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon dderbyn yr un marc unffurf, heb ystyried pryd y safwyd y gydran.
IAMIS	Y sgrin mewnbynnu marciau ar-lein. Y porth a ddefnyddir i fewnbynnu marciau ymgeiswyr i CBAC ac i edrych ar samplau at ddibenion cymedroli. I'w gweld ar y wefan ddiogel.